# Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog – Ymgynghori gyda Phlant a Phobl Ifanc 2022

Mewn cyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd ar **19 Gorffennaf 2022,** cymeradwyodd y Cabinet y bwriad i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95, sef cynnydd o dros 25% o'r capasiti presennol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol rhwng **19 Hydref a 30 Tachwedd 2022,** yn seiliedig ar y bwriad i weithredu'r cynnig ar 1 Medi 2023.

Paratowyd dogfennau addas ar gyfer plant oed cynradd a threfnwyd fod Pennaeth yr ysgol yn hwyluso sesiwn gyda cynrychiolaeth disgyblion yr Ysgol i dderbyn eu ymateb i'r cynnig. Yn ogystal a'r Pennaeth, roedd Swyddog Moderneiddio Addysg hefyd yn bresennol i arsylwi'r sesiwn.

Esboniwyd bod y newid yn golygu:

- Creu Uned ar gyfer mwy o le i Ysgol Chwilog gan fod niferoedd yr ysgol yn cynyddu

Cymerwyd oeddeutu hanner awr i gwblhau'r sesiwn. Roedd yn cynnwys esbonio'r cynnig, mynd drwy cyflwyniad a chwblhau holiadur ar ddiwedd y sesiwn.

Roedd 10 o blant wedi cymryd rhan yn ystod y sesiwn ymgynghoriad.

Gweler isod manylion y sesiwn ymgynghori gyda disgyblion:

| | |
|---|---|
| **Dydd Iau,<br>10 Tachwedd 2022** | **1.30pm<br>Ysgol Chwilog** |

**Gweler isod yr ymatebion a dderbyniwyd gan y disgyblion**

NODER - Mae sylwadau’r plant wedi eu dyfynnu’n uniongyrchol o’u hymatebion.

| **Sut wyt ti’n teimlo am hyn?** | | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Hapus** | **Ddim yn Sicr** | **Anhapus** |
| **Ysgol Chwilog** | 10 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | 10 | 0 | 0 |

| **Cwestiwn 1 – Sut wyt ti yn teimlo am hyn?** |
|---|
| • Rydw i’n hoffi’r ysgol<br>• Yr ysgol ydir lle gorau<br>• oce nai adal ichi tyfu yr ysgol<br>• rydan ni cytuno i wneud y neuadd yn mwy ac i gael dosbarth i cae.<br>• Rydw’i yn meddwl y bod cael ystafell arall i’r ysgol yn Syniad da oherwydd Mae llawer o blant yn y’r ysgol |

| **Cwestiwn 2 – Beth hoffet ti weld yn digwydd fel rhan o’r cynnig yma?** |
|---|
| • rhes gwell<br>• lle cotiau Mwy<br>• sleid<br>• gael lle bwyta mwy, Pŵll nofio ac gael mwy o offer amser chwarae.<br>• fyswn i yn hoffi cael mwy o pethau ar y Iard neu cae. Ee hoop Pel rwyd neu goliau. Hefyd fyswn yn hoffi cael mwy o le yn y neuadd bwyta.<br>• oce<br>• Fyswn i yn hoffi gael mwy o offer i chwarae efo amser chwilog fadda swings ag ffens rownd y swings rhagofn i blant bach frifo.<br>• Byddan ni wneud neuadd mwy ac gael tŷ gwydur i’r llysiau.<br>• Mi faswn ni yn hoffi cael neuadd fwyta mwy i’r holl blant ac ystafell athrawon fwy i Mr Jones.ac yr holl athrawon eraill.<br>• Fyswn i yn hoffi Neuadd mwy. Ac llawr meddal o dan y Parc ysgol. |

| Cwestiwn 3 – Beth sy'n dy boeni am hyn? |
|---|
| • dim bud<br>• dim bud<br>• na<br>• na<br>• Nac Oes<br>• na<br>• Na<br>• does dim byd yn Poini ni.<br>• Does dim byd yn fy mhoeni i.<br>• Nac oes |

| Cwestiwn 4 – Beth yw'r pethau pwysicaf i chi yn yr ysgol? |
|---|
| • Y prif athro<br>• Yr athrawes a Prif athro<br>• y plant ac y athrawon<br>• Plant ddim yn briffo, Plant yn hapus, Plant yn Dysgu<br>• Bod gan blant digon o le a rhyddid i ddysgu a gwrando<br>• i blant fod yn hapys<br>• cael lle i Pawb yn yr ysgol.<br>• cael lle i'r holl blant yn y'r ysgol<br>• Plant yn cael lle i gerdded yn y coridor. |

# Casgliad

Beth ddaeth yn amlwg o'r sesiwn ymgynghori oedd fod disgyblion Ysgol Chwilog yn hapus iawn gyda'r cynnig ac roedd yn glîr fod hyn yn rywbeth da i Ysgol Chwilog. Roedd pob disgybl yn hapus i roid eu sylwadau ar lafar ac yn trafod y newid yn hyderus.

Roedd rhai yn bryderus fod y neuadd a'r coridor am fod yn rhy fach i holl ddisgyblion yr ysgol ond roeddent serch hynny yn croesawu y cynnig.

**<u>Prif bwyntiau'r ymgynghori:</u>**

| Ysgol Chwilog |
|---|
| Pawb o blaid cynyddu capasiti. |
| Roedd rhai yn bryderus fod y neuadd a'r coridor am fod yn fach i holl ddisgyblion yr ysgol. |
| Mae'n amlwg fod y Pennaeth, athrawon a'r disgyblion eraill yn golygu llawer i'w gilydd sydd yn rhoi ymdeimlad o garedigrwydd yn yr ysgol. Roedd pob un disgybl yn dangos balchder mewn bod yn aelodau o'r ysgol. |